# Cyngor Cymuned Llandyfriog

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Nos Fercher yr 11 fed o Fai ,yn Neusdd yr Eglwys Llandyfriog dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Ken Jones.

**1a)Yn bresennl**

Y Cynghorwyr -Derrick Richards, Carol Davies, Ian James, Wyn Thomas, Alan Davies, Ann. Jones, Rhys ap Tegwyn a Ken Jones.

**1b) Ymddiheuriadau .**
Meinir Thomas,Sian Taylor a Branwen Davies.

**1c) Cadarnhau Cofnodion y 5ed o Ebrill 2022.**
(c) Ian James (e) Alan Davies.

**1d)** Cymeradwyaeth gan y Cyngor- Cadarnhawn fod y datganiadau cyfrifyddu hyn ynghyd ar Datganiad Llywodraethau Blynyddol ,wedi ei cymeradwyo gan y Cyngor Cymuned yn unol a Chofnod. D 1.

**1e)** Estynnwyd croeso ir Cynghorydd Newydd sef Mr Rhys ap Tegwyn.

1f) Cafwyd neges wrth y Cynghorydd Towyn Evans yn datgan ei fod yn ymddeol fel Cynghorydd Cymuned.

**2) Heddlu.**

Cafwyd ymddiheuriadau wrth y Swyddog Jeff Kedward.

**3) Cynllunio ,**

Dim iw drafod.

**4) Gohebiaeth,**

Cymru o blaid y diweddariad ar strategaeth ar gyfer pobl hyn.

Datganiad ir Wasg gan :Ramblers Cymru : Helpu gyda natur.

Holiadur ynglyn a phroses rheoli asbestos yn y sector gyhoeddus yng Nghymru.

Local places for Nature 2022 Application

Cadwch Cymru yn Daclus - Ceisiadau ar gyfer pecynnau newydd.

Plantlife Cymru.

**5 ) Materion Ariannol .**

| | |
|---|---|
| Mrs Anwen Evans - | £345.22. |
| Mrs Gillian Davies - | £230.30. |
| Swalec | £8.77. |
| Trefhedyn ( tocyn) | |
| I Mr Adams. | £25.00. |

Cyfanswm = £609. 29.

**6) Cyfraniad .**

Sioe Amaethyddol
Llandysul ar Cylch -£100.00.
(C) Carol Davies.
(E) Ian James .
Y Cynghorydd Ann Jones yn datgan diddordeb.

**7) Materion eraill a drafodwyd.**

Y Cynghorydd Carol Davies yn cael pobl yn mynd o amgylch y cae ,yn lle trwy y canol fel maent i fod.
Y Clerc i drafod y mater gyda Mr Osian Jones o Gyngor Sir Ceredigion.

Y Cynghorydd Ian James am gael gwybodaeth am :Oil Syndicates:
Y Clerc i gysylltu gyda :Age Concern: Aberteifi .
Y Cynghorydd Ken Jones yn bwriadu ffonio Trefigin ynglyn a ffufio :Syndicate.

Mae y gwaith ar yr heol yn Adpar wedi ei ddechrau.

Estynnwyd dymuniadau gorau ir cyn Gynghorydd Towyn Evans ar ei ymmddeoliad or Cyngor ,ar ol blynyddoedd fel Cynghorydd Sir, a Chymuned.
Y Clerc i anfon carden o ddiolch iddo.

Mae angen un Cynghorydd arall ar y Gymuned yn Adpar .
Iw drafod yn y cyfarfod nesaf.

Cydymdeimlwyd gyda theulu y diweddar Mr Lyn Jones Carningli, Adpar a fu farw yn ddiweddar .
Roedd yntau wedi gwasanaethu fel Cynghorydd Sir a Chymuned, am gyfnod hir.

Estynnwyd cyfarchion penblwydd i Mrs Lowry yn 101 ac hefyd Mrs Hyland o Aberbanc yn 100 oed.

Estynnwyd croeso gan y Cynghorydd Sir, Wyn Thomas ir Cynghorydd Rhys ap Tegwyn a hefyd ddiolchiadau ir cyn Gadeirydd ,Y Cynghorydd Carol Davies am ei harweiniad yn ystod ei chyfnod yn y gadair.
Diolchodd hefyd i Anwen Evans a Gillian Davies am eu gwaith dros flwyddyn arall.

Mae Mrs Gillian Davies wedi trafod gyda Cyfrifwyr ynglyn a : Pay as you earn : i Anwen a hithau .

Mae y Cadeirydd Mr Ken Jones yn edrych i fewn i gytundebau y ddeu Glerc ,
a thrafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

**Cyfarfod Nesaf -7 fed o Fehefin yn Neuadd yr Eglwys Llandyfriog.am 7.30 or gloch.**